tafod elái

Nadolig 1993 | Pris 25c | Rhif 83

AROLYGWYR YN CANMOL YSGOL GYMRAEG

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Arolygwyr ei Mawrhydi, mae Ysgol Gyfun Llanhari, ysgol uwchradd ddwyieithog yn Nhaf Elái yn derbyn canmoliaeth uchel: "Mae'r ysgol yn gymuned hapus a llwyddiannus gyda pherthynas athro-disgybl ragorol, disgwyliadau uchel ac ymwybyddiaeth dda o'r gwerthoedd y mae'r ysgol yn ceisio eu hyrwyddo".

Mae'r ysgol, sy'n darparu ar gyfer plant Ogwr a rhannau gorllewinol Taf Elái, wedi tyfu'n sylweddol yn ddiweddar o ganlyniad i'r galw cynyddol am addysg ddwyieithog. Bellach, mae yn yr ysgol dros 1200 o blant a 80 o athrawon.

Yn ôl yr adroddiad, mae'r ysgol yn cael ei rheoli yn effeithiol o ddydd i ddydd ac ychwanegir bod gwaith o safon uchel mewn pynciau unigol ac ar draws adrannau, yn cael ei adlewyrchu gan ganlyniadau arholiadau allanol da.

Ym marn yr Arolygwyr "yr oedd ansawdd y dysgu yn foddhaol mewn 87% o'r gwersi ac yn dda mewn cyfrannedd helaeth o'r rhain" a chafwyd bod ymateb disgyblion yn "hyderus a brwdfrydig".

Canmolir hefyd yr amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi bywydau'r disgyblion. O ganlyniad i'r profiadau hyn, medd yr adroddiad, ynghyd a'r gofal a'r cyfarwyddyd a dderbynnir gan ddisgyblion o ddydd i ddydd, mae'r ysgol yn llwyddo "i greu cymdeithas war y mae'r aelodau yn ymfalchio ynddi".

Mae ymweliadau a threfniadau gefeillio a gwledydd tramor ac ag ardaloedd eraill yng Nghymru, yn derbyn sêl bendith yr arolygwyr. Awgrymir, ymhellach, fod trefniadau o'r fath ynghyd â'r cysylltiadau a grewyd rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar waith a bywyd y disgyblion.

CYNLLUNIO CARDIAU NADOLIG

Trefnwyd cystadleuaeth i gynllunio cerdyn Nadolig i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ar ddechrau'r tymor gyda'r bwriad o argraffu y pedwar cerdyn gorau er mwyn eu gwerthu i rieni a ffrindiau'r ysgol. Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Mr Geraint Jones sy'n astudio ym Mhrifysgol Morgannwg. Yr enillwyr oedd Ken Davies 3 oed, Samantha Leek 5 oed, Nathan Rosser 9 oed a Rhian Foulkes 10 oed. Aethpwyd â'r enillwyr i wylio'u cardiau'n cael eu hargraffu gan Gwmni Three Arch Press yn Nhonysguboriau a gwelir y plant a'u hathro, Mr I Wilcox, gyda Mike Tamplin cyfarwyddwr y cwmni.

Roedd y Prifathro, Mr Peter Griffiths, yn hapus iawn bod yr adroddiad yn cydnabod gwerth yr awyrgylch cynnes, teuluol a oedd, yn ôl yr Arolygwyr, yn nodwedd mor bwysig ym mywyd a gweithgareddau'r ysgol. Talodd deyrnged i ymroddiad a phroffesiynoldeb yr athrawon, i gydweithrediad brwd y disgyblion, ac i gefnogaeth cyson y rhieni.

Dywedodd Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Allan James, bod yr adroddiad yn cadarnhau y gallai'r ysgol lwyddo'n academaidd a meithrin, yr un pryd, ymwybyddiaeth o werthoedd diwylliannol a chymdeithasol.

GŴYL DDRAMA LLWYDDIANNUS

Rhyfeddu at yr egni a'r talent a'r dawn wnaeth Iola Gregory wrth gloriannu'r ŵyl eleni. Cafwyd tair noson o adloniant a diddanwch yn Neuadd Dowlais ar 24 - 26 o Dachwedd ac er fod nifer y cystadleuwyr oedolion yn llai nac arfer roedd teilyngdod ym mhob un o'r cystadleuthau.

Y SEITHFED DYDD

Tua canol mis Hydref clywais gyhoeddi o leiaf dri mater ar uwch-seinydd mewn archfarchnad leol. Estyniad i oriau agor i fyny tan y Nadolig. Yn ail, argymhelliad i bawb i arwyddo deiseb dan y teitl "Rhyddid i Siopa ar y Sul". Yn drydydd y garol enwog "I orwedd mewn preseb".

Ie, carol ym mis Hydref. Mae'r cyntaf a'r ail ynghlwm wrth ei gilydd. Ond beth yw y pwynt o gael deiseb. Mae'r frwydyr drosodd, mae'r frwydr am siopa ar y Sul wedi'i hennill. Gwir nid yw'r cyfan yn swyddogol ond pa aelod seneddol sydd yn debyg o beryglu ei sedd ros fynd yn erbyn.

Mae'r siopau ar agor. Mae'n ffaith. Ni ellir troi nol. Mae'r mwyafrif o bobl Cymru am siopa ar y Sul ac maent yn gwneud hynny.

Nodyn o gysur i mi fel capelwr cyson, sylwer, nid capelwr da na duwiol, yw'r ffaith nad yw agor y siopau a'r archfarchnadoedd ar y Sul yn mynd i wneud gronyn o wahaniaeth i'r nifer o bobl fydd yn oedfa fore Sul yn Sardis. Ni fydd na mwy na llai.

Fel dywedodd un o'r cwsmeriaid yn yr archfachnad fore Sul. "Os na faswn i yma, yn sicr faswn i ddim yn yr eglwys". Chwarae teg iddo am fod mor onest a datgarn barn y mwyafrif yn hollol glir. Felly llawenydd mawr i nifer fawr o bobl fod siopa ar y Sul wedi dod yma i aros.

Wedi'r cyfan rhaid i mi gyfaddef fy mod i yn bersonol wedi prynu papur Sul. Rwy wedi teithio ar fy ngwyliau ar y Sul. Rwy wedi gwylio bob math o bethau ar y teledu ar y Sul yn cynnwys Rygbi a Phel-droed. Rwy wedi prynu petrol ar y Sul. Alla i ddim dadlau yn erbyn heb fod yn fwy o ragrithiwr nad ydw i.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth

tafod elái

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af o Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
16 Ionawr 1994

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040

Cyhoeddir Tafod Elái gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cymdeithas Celfyddydau
De-Ddwyrain Cymru a'r
Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan
Gwmni Three Arch Press.

Pan yn grwt rwy'n cofio'n dda am y tro cyntaf i ffermwr drws nesaf gywain gwair ar y Sul. Ni wnaeth fy Nhad na Mam erioed. Y cyfan dywedodd fy Mam "Does dim rhaid iddo weithio ar y Sul. Ei ddewis e yw."

Oes dewis gan staff yr archfarchnadoedd i weithio ar y Sul neu beidio? Ofnadwy o beth fyddai meddwl fod yn rhaid i bobl weithio ar y Sul i gadw mewn swydd yn enwedig er mwyn i ni gael gwneud fel y'n ni eisiau.

Plant Ysgol Tonyrefail
yn yr argraffdy

Beth am y garol "I orwedd mewn preseb"? Mae bron pawb yn ei hoffi, yn enwedig y plant. Ond ganol mis Hydref? Braidd yn gynnar! Chlywais i am neb yn canu "Penblwydd hapus i chi" dri mis ymlaen llaw.

Y cwestiwn yw a oes cysylltiad rhwng "I orwedd mewn preseb" a llanw'r troli i'r top a hynny dro ar ôl tro yn y tri mis tan y Nadolig? Pam yn y byd mae cymaint o bobl yn gwario gymaint o amser, egni ac arian i ddathlu gwyl Cristnogol? Mae'r wyl i'w chrynhoi at un diwrnod, a mae hynny yn golygu cinio, tê a swper ar y mwyaf. Does dim son yn y Beibl am dri mis ymlaen llaw.

Nôl at y staff. Ydy'n nhw yn gallu mwynhau dydd Nadolig? Fe fyddai yn anodd mi dybiwn, eu perswadio i ddod i wasanaeth carolau ac yn enwedig i ganu "I orwedd mewn preseb".

Ie, bu bron i mi beidio dweud. Peidiwch ag anghofio yr Ewyllys Da, a Heddwch wrth gwrs. Mae un ffaith yn aros yn gwbl sicr, bydd pobl Bosnia, Somalia a Namibia ddim yn anghofio.

Hywel Sardis.

'Dan bach Pontypridd' Ysgol Evan James 'Miwni'

Roeddem yn disgwyl gweld ysgol yn gwneud cyngerdd Nadolig arferol ar Nos Sadwrn y 27ain o Dachwedd yn y Miwni ond yn lle hynny cawsom ein taflu i mewn i'r sgwâr bocsio a chael hanes prifddinas bocsio Cymru. Roedd y gynulleidfa braidd yn un-ochrog, yn cefnogi y bachan lleol, Dan Bach Pontypridd, yn erbyn y mawrion o Loegr ac o'r America. A'r wyrth oedd fod Dan yn cynrychioli o leiaf naw o baffwyr dewr o Bontypridd a ddaeth yn bencampwyr Prydain.

O fewn eiliadau o gyrraed y Miwni roedd Wili Penhewl yn ymladd Ianto John a chorws gref o'i ddilynwyr yn benderfynol o sicrhau fod Wili, eiddil, yn cael cefnogaeth pawb yn ei ymdrech ddewr. A dyna'r cefndir y magwyd Daniel Thomas ynghanol y paffio yn Ffair Berw Road ac ar Barc Ynysangharad. Y dewis oedd mynd i lawr y pwll glo neu cael gweld os oes man gwyn fan draw.

Roedd yr awyrgylch yn drydanol, y tro cyntaf i Ysgol Evan James gyflwyno sioe gerdd. Roedd y sgript gan Emyr Edwards a'r gerddoriaeth gan Eirwyn Jôs yn gweddu i'r dim i'r hanes a'r amgylchiad ac os nad oedd rhai o'r rhieni yn deall Cymraeg roedd y stori yn cael ei gyfleu drwy symud ac actio dyheuig a phwrpasol. Ac roedd pob gair a lefarwyd o lwyfan y Miwni i'w glywed yn y rhes gefn. Tasg digon anodd i griw o blant ysgol gynradd.

Wrth i Daniel dyfu roedd ei ddawn fel paffiwr yn dod yn fwy amlwg a chefnogaeth y dref ac yn arbennig ei gariad, Elsie, yn rhoi hwb iddo. "Muscles fel y naw, a'i law fel bollt yn sicr o lorio pwy bynnag a ddaw".

Gwelsom fywyd yn East End Llundain a'r Rheolwyr yn trefnu gornestau ar gyfer buddugion y ddinas. Y peth rhyfedd oedd gweld dros cant o blant ar y llwyfan yn gallu newid yr awyrgylch o fod yn gymeriadau Cymreig i fod yn foneddigion St Martin's Lane, Llundain.

Roedd y bechgyn yn 'sbaro' yn ardderchog, eu symudiadau a'u canu i'r dim. Roedd naws ac awyrgylch y noson yn fwyiog ac yn llawn sbort. Ac ar ddiwedd y noson roedd Dan Bach wedi cyrraed ei gadair freichiau ac yn cael rhoi o'i brofiad i genehedlaeth nesaf yr ardal.

Yn sicr roedd dechrau'r ganrif yn oes aur i baffio yn yr ardal ac roedd y Noson yn y Miwni yn noson aur i ddisgyblion Ysgol Evan James.

GWEITHREDU AR FWRDD YR IAITH

Penodwyd Dr Edward Rea o'r Groesfaen yn aelod o Fwrdd yr Iaith. Bu'n reolwr-gyfarwyddwr gyda chwmni *Wella* nes iddo ymddeol, nawr mae'n Gadeirydd Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cyllid yr Eisteddfod Genedlaethol. "Fy nghyfraniad i ar y Bwrdd fydd hybu'r sector breifat i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac i lywio prosiectau arbennig yn yr iaith yn y maes cyfrifiadurol".

NOSON I'R TEULU

Canolfan Hamdden Llantrisant
6.00 - 10.00 pm
Nos Sadwrn, 11 Rhagfyr
Nofio - Aerobics - Twmpath
Rollerdisco - Peldroed 5 bob ochr
Sauna - Canu yn y bar
Popeth yn Gymraeg

LLWYDDIANT YN YR ŴYL GERDD DANT

Aeth llond bysiau o'r ardal i gystadlu yn yr Ŵyl yn Hendy Gwyn ar Daf ar 13eg Tachwedd a dymunwn llongyfarch pawb ddaeth a gwobrau yn ôl i'r ardal - Corau Cerdd Dant Ysgol Gyfun Rhydfelen, Dawnswyr Nantgarw, Merched y Garth, Ensemble Telynau Ysgol Gyfun Llanhari ac Unawdwyr Telyn Ysgol Gyfun Rhydfelen - Rhain Hanson, Osian Llyr a Deian Siôn

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT

Bu disgyblion yr ysgol yn casglu arian yn ddiweddar ar gyfer ymgyrch Plant mewn Angen. Thema'r ysgol y tymor hwn yw 'Teganau' ac felly cafodd y plant wisgo fel unrhyw degan o'u dewis nhw.

Ar benwythnos cyntaf y tymor newydd bydd plant dosbarthiadau chwech a saith yn mynd i wersylla i Langrannog.

Y MILWR A'R SIOCLED

Efallai i chi glywed yr hanes am y 'chocolate soldier' ar y radio a'r teledu yn ddiweddar. Yn ystod yr ail ryfel byd cyfarfu merch fach o Ffrainc â milwr o Gymru a fu'n garedig iawn wrthi. Gofynnodd y milwr beth hoffai'r ferch fach ei gael yn anrheg. Atebodd hithau yr hoffai gael losin. Y diwrnod wedyn daeth y milwr ifanc â siocled iddi. Cofiodd y ferch am y milwr caredig ar hyd ei hoes, ac addunedodd y byddai'n dod o hyd iddo rhyw ddiwrnod ac yn diolch iddo. Mae'r ferch bellach yn wraig ganol oed ac yn byw yng Nghanada ac wedi blynyddoedd o chwilio darganfu mai yn y Beddau yn ne Cymru yr oedd y milwr y byw. Daeth yma a chwrdd â'r teulu. Mae mab a merch yng nghyfraith y milwr - Mr a Mrs O'Sullivan - newydd agor bwyty'r Brasserie ar y *bullring* yn Llantrisant, a'u merch Andrea - wyres milwr y siocled - yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Llantrisant. Bu Andrea'n sôn am yr hanes yn ddiweddar ar Radio Cymru. Stori fach llawn ewyllys da ichi ar drothwy'r Nadolig!

PENODIAD

Llongyfarchiadau i Mrs Jan Thomas, 25, Fairland Close ar ei phenodiad yn ddirprwy brifathrawes Ysgol Fabanod y Cymer. Ar hyn o bryd mae Jan yn aelod o staff Ysgol Heol-y-celyn, Pontypridd.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Neville Thomas, Pont-y-clun a'r teulu ar farwolaeth tad Neville yn ddiweddar.

REQUIEM

Fel y gŵyr llawer mae Côr Disgyblion, Staff a Chyfeillion Llanhari yn perfformio Requiem Fauré ddiwedd y tymor. Un o'r unawdwyr fydd Nia Price, Clôs Portreeve. Dymuniadau gorau iddi.

GWLYPTIR LLANTRISANT MEWN PERYGL

Mae grŵp wedi ei ffurfio i ymgyrchu yn erbyn cynlluniau cwmni o'r enw Aulay Developments i ddatblygu'r tir sydd rhwng cefn Homeworld â'r ffordd osgoi. Yn ôl yr ymgyrchwyr mae'r tir yn fath prin o gorstir ac yn gynefin i adar prin fel y gïach *(snipe)*. Ychydig o wlyptir o'r fath sydd ar ôl ym Morgannwg ac mae'n debyg mai dyma'r darn olaf o'i fath yn Nhaf-Elái.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygu'r tir ar gyfer diwydiant ysgafn nôl ym 1990, ond yn ddiweddar mae cyngor Taf-Elái wedi gwrthod caniatâd i gwmni Aulay Developments ddatblygu'r tir ar gyfer mân-werthu. Mae cynlluniau'r cwmni yn cynnwys sawl siop a warws a bwyty mawr â lle i barcio 500 o geir.

Mae'r cwmni wedi apelio i'r Swyddfa Gymreig yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod y cais cynllunio. Gwrandewir ar yr apêl ar ôl y Nadolig. Gobeithia'r grŵp ymgyrchu y bydd aelodau'r cyhoedd yn y cyfamser yn ysgrifennu at y Panel Apêl i gefnogi eu cais i gadw'r cynefin prin hwn at ddibenion addysgol, neu o leiaf i'w ddatblygu mewn ffordd a fyddai'n creu mwy o swyddi i'r fetr sgwâr ac na fyddai'n achosi cymaint o draffig. Os am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynlluniau, cysylltwch â Richard Lloyd (223348) neu â Wyn Thomas (222417).

LLWYDDIANT AR Y DELYN

LLongyfarchiadau i Esyllt Swain, Lowerdale Drive, Llantrisant a oedd yn aelod o'r *ensemble* telynau o Ysgol Gyfun Llanhari a oedd yn fuddugol yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Hendy-gwyn ar Daf ym mis Tachwedd.

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT

Cofiwch am y Gwasanaeth Plygain yn y Tabernacl, Pont-y-clun ar noswyl Nadolig. Bydd y gwasanaeth byr yn dechrau am 11.30 pm, 24 Rhagfyr ac mae'n gyfle bob blwyddyn i aelodau'r Gymdeithas a'u teuluoedd o bell ac agos osod cywair priodol i'r Nadolig a dymuno Nadolig Llawen i'w gilydd ym munudau cyntaf yr Ŵyl. Beth am ymuno â ni eleni?

Ymddiheuriadau i'r aelodau hynny na chafodd le wrth fwrdd y cinio eleni! Bydd yn rhaid trefnu lle mwy y flwyddyn nesaf.

Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd fydd y **CWIS** dan ofal Cliff Hewitt yn y Brunel, Pont-y-clun ar 28 Ionawr. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CLWB DRAMA AC YN Y BLAEN

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau'r clwb a'u hyfforddwr, Danny Grehan ar eu perfformiad yng Ngŵyl Ddrama'r Tafod. Roedd hi'n amlwg i bawb fod y criw yma wedi cael oriau o hwyl yn paratoi a bod dychymyg a gwaith caled y tîm wedi dwyn ffrwyth ar ei ganfed.

PENCAMPWRAIG

Bu'r haf a'r hydref eleni yn gyfnod llwyddiannus iawn i Nerys Rowlands, Westhill Drive. Fel y gŵyr darllenwyr cyson y Tafod mae Nerys yn canwio ers tro ar safon ryngwladol fel aelod o dîm iau Prydain. Bu allan yn America yn yr haf gyda'r tîm yn cystadlu ym Rhag-bencampwriaethau Iau y Byd. Daeth yn gyntaf yn Llangollen yn yr hydref ym Mhencampwriaeth Agored Prydain i rai dan 18 oed, yn gyntaf o'r cystadleuwyr iau yn y bencampwriaeth ryngwladol a thrydydd o'r holl gystadleuwyr. Bellach mae Nerys fymryn yn rhy hen i gystadlu yn yr adran iau - mae'n aelod o dîm Prydain i rai rhwng 18 a 22 oed ac yn wythfed o ran safle o'r holl ferched sy'n canwio ym Mhrydain.

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT

24 Rhagfyr, 11.30 pm	Gwasanaeth Plygain, Capel y Tabernacl, Pont-y-clun
28 Ionawr, 7.30 pm	Cwis dan ofal Cliff Hewitt yn y Brunel (Ystafell Gefn), Pont-y-clun. Bwyd basged ar gael, ond rhowch wybod ymlaen llaw - 228196

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

YSGOL EVAN JAMES DIGWYDDIADUR

Rhagfyr 4ydd - Coffi gyda Santa am 10.00 o'r gloch - nid ffair eleni oherwydd prinder lle.

Rhagfyr 7ed - Mici Plwm a Rosfa yn diddanu'r plant.

Rhagfyr 14eg (bore) a Rhagfyr 15ed (prynhawn) Cyngerdd Nadolig y Babanod.

Rhagfyr 17eg - Plant yn canu carolau yn y dre tu allan i Fanc y National Westminster. Cyfle i chi wneud eich siopa Nadolig i fiwsig Carolau Cymraeg!

S4C

Bydd criw o blant yr Adran Iau yn ymddangos ar S4C rhywbryd rhwng Dydd Nadolig a Dydd Calan yn canu carolau.

YMWELIAD YR HEDDLU

Fe ddaeth yr Heddlu i'r ysgol ar Tachwedd 17eg gyda Bobi'r Car. Pwrpas yr ymweliad yma oedd dysgu plant Adran y Babanod i fod yn ofalus wrth groesi'r ffordd.

YSGOL RHYDFELEN

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn llwyddiannus yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Hendy Gwyn ar Daf. Parti dan 12 oed - 3ydd. Parti dan 15 od - 1af. Parti dan 19 oed - 2il. Unawd Telyn dan 15 oed: Deian Rowlands - 3ydd. Unawd Telyn dan 13 oed: Osian Rowlands - 2il. Unawd Telyn Agored: Rhian Henson 1af gyda chanmoliaeth uchel.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Bethan a Martin Geraint ar enedigaeth mab, Carwyn - brawd bach i Meilir.

Llongyfarchiadau hefyd i Christopher a Caryl Mann, Vale Gardens, Graigwen ar enedigaeth mab, Lewis, brawd bach i Nerys.

YSGOL PÔNT SION NORTON DIGWYDDIADUR

Rhagfyr 6ed - Gwasanaeth Nadolig yn Sardis.

Rhagfyr 14eg - Canu Carolau yn y dre.

Rhagfyr 14eg - Martin Geraint yn diddanu'r Babanod.

Rhagfyr 16eg - Partion Nadolig.

Rhagfyr 17eg - Siôn Corn yn ymweld a'r ysgol.

CAPEL SARDIS PONTYPRIDD

Ar Dachwedd 7ed bu Cwrdd Diolchgarwch y plant. Yn ogystal â rhoddion i'r henoed gwelwyd deg o luniau y deg gorchymyn a ddangoswyd gan y Gweinidog. Y cyfan yn rhan o'r Diolch gan fod Diolch am y Beibl yn rhan o'r thema.

Ar Tachwedd 14eg cafwyd gwasanaeth o ddiolch a'r bobl ifanc yn cymeryd at y darllen a'r gweddio a'r Athro D Eurig Davies yn traddodi pregeth. Profiad pleserus oedd cael basned o gawl cartref a chaws yn y festri ar ol yr oedfa. Cafwyd gwir fwynhad ysbrydol.

COLLI AELOD

Tristwch i ni ym mis Tachwedd oedd colli trwy farwolaeth Phyllis Mary Davies priod cariadlawn T Glyn Davies, y ddau yn aelodau ffyddlon o Sardis.

Cafwyd gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa ar Dachwedd 5ed.

Ganwyd Phyllis 84 o flynyddoedd yn ôl yn Pear Tree Cottage, Gwaelod y Garth. Roedd ei thad yn adnabyddus fel canwr bas a rhoddwyd iddo'r enw "Llew'r Garth" gan fod ganddo arswydus lais. Daeth ei fam o Lanbleddian.

Etifeddodd Phyllis fwynder a gostyngeiddrwydd ei mam a hoffder canu ei thad. Bu yn aelod o sawl cor lleol, o leiaf pedwar.

Yn y gwasanaeth angladdol cafwyd canu gwefreiddiol gan lond lle o bobl. Gorfoledd o ganu mewn parch am ei bywyd Cristnogol. Canodd Cor Meibion Pontypridd Laudamus gyda'r fath angerdd a dwysder. Daeth yr arweinydd, Herbert Housmann o Neuffen, yr Almaen i'r oedfa yn deyrnged i'r cyfeillgarwch sydd rhwng Phyllis a T Glyn a phobl Pontypridd a'r dref honno.

Dyma deyrnged T Glyn "I mi roedd yn wraig ddelfrydol." Diolch i Dduw am ei bywyd o gariad tyner tawel a dwfn.

Capel Sardis Pontypridd

Rhag 5. Gwasanaeth Carolau Ysgol Pontsionorton.

Rhag 12. Gwasanaeth Carolau

Rhag 19. Oedfa o baratoad - Gweinidog.

Rhag 25. Oedfa Gymun Bore Nadolig am 9.30

Rhag 26. Oedfa Heddwch - Gweinidog

Ion 2. Oedfa Flwyddyn Newydd, Cymun - Gweinidog

Ion 9. Oedfa - Parch Elfed G Williams

Ion 16. Oedfa - Gweinidog

Ion 23. Parch Gronw ab Islwyn

Ion 30. Oedfa Gymun - Gweinidog.

TRÊN I WELD SIÔN CORN

Fe aeth plant yr Uned dan 5 ar trên arbennig Rheilffordd Mynyddig Bannau Brycheiniog i weld Sion Côrn ar Rhagfyr 2il.

Bu Blwyddyn 6 yn ymweld â chynllun 'Crucial Crew' yn hen adeilad 'Do It All' ar 25ed o Dachwedd.

Cynhaliwyd dwy ffair lyfrau lwyddiannus iawn yn yr ysgol yn ystod mis Tachwedd.

CANLYNIADAU

RYGBI

Pont Siôn Norton 20 Trefforest 5

Gwauncelyn 12 Pont Siôn Norton 22

PEL RWYD

Trefforest 4 Pont Siôn Norton 0

St Michael's 6 Pont Siôn Norton 0

(Gwell lwc tro nesaf)

PENCAMPWRIAETH KARATE

Llongyfarchiadau i Jay White, Blwyddyn 4 sydd wedi ennill Pencampwriaeth Cymru yn Karate dan 10 oed a than 4'4" o daldra.

Mynnwch y Safon Orau Archebwch gyda Sicrwydd

anglian

CANOLFAN FFENESTRI

Ar ôl 26 mlynedd yn cyflenwi rydym o'r farn fod ein enw yn seiliedig ar:

- **Ansawdd ein cynnyrch**
- **Safon ein gwaith gosod**
- **Ein gwarant deng mlynedd**

Am lyfryn am ddim neu am Bris Cyflawn cysylltwch â
Eurig Griffiths
0633 262552
neu 0222 221707

MENTER Taf Elái

Swyddog Datblygu:
Steffan Webb 0443 226386

SIOPA YN GYMRAEG

Ar ddydd Mawrth, 17 Tachwedd lansiwyd Cynllun Iaith Gwaith yn archfarchnad Tesco, Tonysguboriau. Cafwyd cyhoeddusrwydd eang ar y cyfryngau i'r digwyddiad sy'n rhan o ymgyrch Menter Taf Elái i Gymreigio busnesau'r ardal. Nod Menter Taf Elái yw sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn yr ardal a chroesewir y ffaith bod gan Tesco ddeg aelod o staff sy'n barod i gymryd rhan yn y Cynllun. Hefyd mae archfarchnad Tesco yn Gellihirion, Pontypridd wedi mabwysiadu'r cynllun.

CYMREIGIO'R CYNGOR

Yn ystod mis Tachwedd hysbysebwyd yn y Wasg am Swyddog Iaith i Gyngor Taf Elái. Bydd y swyddog yn gweithredu i gyfieithu furflenni'r cyngor a hybu dwyieithrwydd ym mhob agwedd o weinyddiaeth y cyngor. Y flwyddyn diwethaf mabwysiadwyd polisi cynhwysfawr gan Gyngor Taf Elái i hybu dwyieithrwydd ac nawr mae'r Cyngor yn cydweithredu gyda'r Menter i gryfhau safle'r Gymraeg ym mhob adran o'r Cyngor.

Pendodiad newydd arall a ddisgwylir yn fuan yw Hyfforddwr Pêl Droed yn yr Adran Hamdden fydd yn medru'r Gymraeg. Bydd yr Hyfforddwr ar gael i ymweld ag ysgolion y cylch.

Y SWYDDFA BOST

Mae'r Fenter wedi bod yn pwyso ar y Swyddfa Bost i ddarparu cownter Cymraeg ym Mhontypridd. Hyd yn hyn gwrthodwyd y cais ond mae'r Fenter i barhau i bwyso ar un o'n Gwasanaethau Cyhoeddus mwyaf pwysig i ddarparu gwasanaeth drwy'r Gymraeg.

Staff Tesco Tonysguboriau yn gweithredu Iaith Gwaith

Arwyddion Cymraeg Tesco

FIDEO GWASANAETH TÂN

Yn dilyn cyfarfod adeiladol iawn gyda Swyddogion Gwasanaeth Tân Morgannwg Ganol cytunwyd y bydd y Gwasanaeth yn mabwysiadu Cynllun Iaith Gwaith. Datblygiad pwysig arall yw y bydd y Fenter a'r Gwasanaeth yn gweithio ar prosiect i gyfieithu fideo ar beryglon tân ar gyfer ysgolion Cymraeg y Sir.

CYNGHORAU BRO

Mae Menter Taf Elái wedi bod yn ymweld â nifer o Gynghorau Bro yr ardal i egluro amcanion y Fenter ac i gael eu cydweithrediad i hybu'r Gymraeg. Cafwyd ymateb ffafriol oddiwrth rhai cynghorau ond yn anffodus mae pedwar cyngor, Llanilltud Faerdref, Tonyrefail, Pontypridd a Llantrisant wedi gwrthod trafod neu gohirio unrhyw ymateb i'r Ddeddf Iaith newydd.

TWMPATH DOLIG
Y FENTER
gyda
CALENNIG
8pm - 11pm Neuadd Dowlais
Dydd Iau 30ain Rhagfyr
Bar ac Adloniant
Tocynnau £3

MENTER Taf Elái

CYNORTHWYYDD SWYDDFA

Mae'r Fenter angen Cynorthwyydd Swyddfa i weithio yn y Swyddfa yn Llantrisant. Byddai profiad o ddefnyddio prosesydd geiriau a/neu defnydd o gar o fantais.

Oriau - i'w trafod
Cyflog - £5 yr awr
Swydd i ddechrau
yn gynnar ym mis Ionawr.

Ceisiadau ysgrifenedig i'w hanfon i:
Steffan Webb, Menter Taf Elái, Y Tŷ Model, Llantrisant. CF7 8EB.
I gyrraedd erbyn 22 Rhagfyr 1993.
Ffoniwch 0443 226386 am fwy o wybodaeth.

MENTER Taf Elái

RHAGOR O CHWARAEON DRWY'R GYMRAEG

Mae Grŵp Pêl Droed dan 11 oed llewyrchus iawn wedi cychwyn yng Nghanolfan Llan bob Nos Fercher rhwng 5 a 6 o'r gloch. Mae croeso i fwy ymuno â'r grŵp a'r gobaith yw ffurfio tîm i chwarae yn y gynghrair dan 11 oed mis Medi nesaf.

Erbyn hyn mae llwyth o hyfforddwyr ar gyfer chwaraeon drwy'r Gymraeg - nofio, pêl rwyd, dawnsio, gymnasteg. Os oes diddordeb gennych neu eich plant yna y cwbl sydd rhaid gwneud i'w ffurfio grŵp o 6 i 8 a bydd y Fenter a Chyngor Taf Elái yn trefnu lleoliad a hyfforddwr ar gyfer y gweithgaredd.

GYMNASTEG

9.45am - 10.45 am Bore Sadwrn
Canolfan Hamdden Llantrisant
Cwrs 12 wythnos
Dechrau 8fed Ionawr 1994
£17.40
RHAID COFRESTRU O FLAEN LLAW
Ffurflenni o Swyddfa'r Fenter

YMGYRCH IAITH GWAITH PONTYPRIDD

Ar ôl y Nadolig bydd nifer o gefnogwyr y Fenter yn ymweld â siopau yn Stryd y Taf, Pontypridd gyda holiadur pellach am agwedd y siopwyr i'r iaith Gymraeg ac i ofyn iddynt ystyried y cynllun Iaith Gwaith.

Bydd angen cymorth i gyflawni'r ymgyrch hwn a bydd criw yn cychwyn ar y dasg am 10.00 o'r gloch bore Iau, 30 Rhagfyr.

CLWB CERDDED TAF ELÁI

Dydd Sul, 19 Rhafyr
Cwrdd: 2.00 pm
Ysgol Gyfun Glantaf,
Bridge Road,
Ystum Taf, Caerdydd.
Taith: Tua 3 milltir ar hyd llwybr Taith Taf
- Dim Mynyddoedd!

Dydd Sul, 16 Ionawr
Cwrdd: 2.30 pm Yr Hen Bont Pontypridd
Taith: Tua 2 filltir yng nghanol y dref a Parc Ynysangharad.

Croeso i Bawb
Manylion: 0222 891353

GIG SANTES DWYNWEN

gyda
Enaid Coll
Nos Sadwrn, 22 Ionawr
yng Nghlwb y Bont

PARTI NADOLIG PLANT Y FENTER

4pm - 6pm Neuadd Dowlais
Llanilltud Faerdref
Dydd Iau, 30ain Rhagfyr

Gemau Bwyd Siôn Corn Anrheg Hwyl a Sbri
Tocynnau: £2.50 plentyn cyntaf
£2 i blentyn arall

ADRAN EFRYDIAU ALLANOL Y BRIFYSGOL

WLPAN I DDYSGWYR CYMRAEG
yn Ysgol Gyfun Llanhari.
Tair noson yr wythnos.

Yn dechrau ar
15 Ionawr 1994
am 7.00 o'r gloch.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

CYSTADLEUAETH CYNLLUNIO CERDYN NADOLIG 1994

Categori 1 — *yn gyfyngedig i Gylchoedd Meithrin*
Categori 2 — *yn gyfyngedig i Ysgolion Cynradd*
Categori 3 — *yn agored i Ysgolion Uwchradd, Colegau Celf, Unigolion.*

Dyddiad Cau: Ionawr 31, 1994

Dylid anfon y cynhyrchion i:
Mudiad Ysgolion Meithrin
145 Albany Road
CAERDYDD CF2 3NT
Ffôn: 0222 485510

CANLLAWIAU

1. Llunio Cynllun mewn du a gwyn.
2. Y Cynllun i gyfleu neges y Nadolig ond ar yr un pryd yn adlewyrchu amcanion a gwaith y Mudiad Ysgolion Meithrin.
3. Ceidw'r Mudiad Ysgolion Meithrin yr hawl i addasu'r cynllun cyn ei argraffu'n derfynol.
4. Bwriedir cyhoeddi y 3 cynllun buddugol (1 ymhob categori) a'u gwerthu mewn pecyn o 3, Nadolig 1994.
5. Hawlfraint y cynllun yn eiddo i'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

GWOBRAU

Categori 1	Pecyn Nwyddau Mabob a Mabli
Categori 2	Pecyn Arlunio
Categori 3	£50

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Miss K.O. Pritchard

CADW'R TRADDODIAD

Yng nghanol mis Tachwedd cafwyd pedair noswaith o berfformio drama gan Gamni Drama Gilfach Goch. Enw'r ddrama oedd "Deadly Nightcap" - hanes cyffrous o dwyll a llofruddiaeth. Roedd y Cwmni fel arfer ar eu gorau, a phawb yn mwynhau wrth weld y cynllwyn yn dwyshau a'r llofrudd yn cael ei ddatgelu.

Llawenydd i'r Cwm yw gweld y traddodiad o berfformio'n parhau. Mae'n sicr mai Cwmni Gilfach Goch yw un o'r cwmniau hynaf yng Nghymru. Cofiaf fynd i weld drama pan yn blentyn yn 1917. Roedd y Cwmni y pryd hynny o dan yr enw "Cwmni Bryn Seion" ac wedi bodoli am rai blynyddoedd dan y cynhyrchydd Mr E Evans.

Yn ystod y blynyddoedd bu iddynt lwyddiant anhygoel mewn cystadlaethau yn Lloegr a Chymru. Pan yn perfformio yng Ngŵyl Genedlaethol Prydain ym Mryste cafodd y diweddar Mrs Jennie Nash (Smith) gynnig i ymuno â chwmni cenedlaethol Llundain am ei chyflwyniad o'r prif gymeriad yn 'Gas Light'.

Gyda Chwmni Gilfach Goch y dechreuodd Rachel Thomas ei gyrfa fel actores, a llu eraill o'r Cwm a ymfudodd i ardaloedd eraill.

Y cynhyrchydd presennol yw Mrs Eirwen Davies ac o dan ei harweiniad ceir drama lwyddiannus bob blwyddyn. Rhaid hefyd talu teyrnged i'r Mri Dave Laurence ac Alan Warren am eu gwaith rhagorol gyda'r goleuadau a'r llwyfan. Hwyl fawr at y ddrama nesaf.

SIOPA

Mae paratoadau ar gyfer y Nadolig wedi cychwyn yn gynnar yn y Cwm eleni. Ceir nifer o fysiau yn teithio'n gyson i drefi a marchnadoedd i chwilio am fargeinion a nwyddau Nadolig. Gan bod y siopau bron wedi llwyr ddiflannu o'r ardal, a'r heolydd yn myned yn fwy prysur a pheryglus manteisir ar y cyfle o gael mynd o drws i ddrws a gadael y car yn ddiogel yn y 'garej'. Er hynny, chwith meddwl bod goleuadau lliwgar siopau'r Cwm wedi diffodd.

Y MELINAU GWYNT

Gwelir bod teithiau wedi eu trefnu i weld y melinau gwynt ar ffermydd Tŷ Newyddd a'r Maendy. I rai ohonom, digon yw canfod eu troeon undonog, ddydd ar ôl dydd ar fryn oedd gynt yn fangre heddwch a llonyddwch. Pwy all sicrhau eu gwerth? O gors bryniau'r Cwm fe lifa filoedd ar filoedd o alwyni o ddwr ac ynddo ddigon o nerth i gynhyrchu canrifoedd o ynni fel y gwnaeth y garreg ddu a drigai o dan eu ffynhonnell. Rhaid cyfaddef mai newid ddaeth o "rôd i rôd", ond estron sydd yn bugeilio'r hen fynyddau - ai bodlon ydym?

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â phawb sydd yn wael ac mewn profedigaeth. Mae llu ohonynt yn y Cwm, a heddiw'r bore daeth newydd am farwolaeth Mrs Edith Davies ar ôl cystydd hir a phoenus. Roedd Mrs Davies yn byw yn Swn yr Afon a chanddi un mab, Carson, sydd yn byw yn Awstralia.

BARGEINION

Dyma'r amser pryd y cynhelir 'Bazaars' ymhob ardal a chwm, ac mae nifer ohonynt wedi eu cyhoeddi eisoes yn y Gilfach. Ceir llawer o bleser yn casglu a gweithio, a phawb yn awyddus i wneud cymaint o arian a fedrent at achosion dyngarol a chymdeithasol. Hwyl fawr i'r mudiadau i gyd.

Os am
DIWNIWR
PIANO
Cysylltwch a
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath.
CAERDYDD.
Ffon: 0222 484816

CAPEL SALEM TONTEG

Am y pedwerydd tro mewn deng mlynedd bu galw am oedfa fedydd - bedydd credinwyr hynny yw - yn Salem. Ac roedd y Sul, 7ed o Dachwedd yn Sul i'w gofio. Wyth yn cyflwyno'u hunain i'w bedyddio, yr ifanca yn ei harddegau, a'r hynaf, wel yn ddigon hen i dderbyn pensiwn! Daeth llu o berthnasau a chyfeillion i'r oedfa i gefnogi ac i ddymuno'n dda i'r wyth, gan ychwanegu gryn dipyn at nifer y gynulleidfa arferol.

A dyma'r wyth: Kate Williams oedd yr ifanca, yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llanhari, a Dyfrig Wilson hefyd yn gyn-ddisgybl yn Llanhari, a'i fam Susan. Yna gweddill y rhai hŷn, yn ôl trefn y wyddor ac nid oedran; Mrs Mary Cox, Mrs Nina Davies, Mrs Jane Mann, Mrs Margaret Rogers, a Miss Bridget Whately White.

Cyfrannodd Kate at yr oedfa drwy ganu can oedd hefyd yn rhan o'i thystiolaeth, yn mynegi'r gobaith na fyddai byth yn troi yn ôl wedi cymryd y cam hwn. Daeth ei chyfeillion o'r Ysgol Sul yno i ganu hefyd. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Allan Pickard, a chafodd gymorth ysgrifennydd yr eglwys, Gwyn Rogers i weinyddu'r sacrament. Yn ystod y dydd hefyd cafwyd gwasanaeth cyflwyno plentyn, a derbyniwyd pump aelod newydd. Diwrnod i'w gofio yn wir.

Y GYMRAEG

Ceir newyddion da am barhad a llwyddiant y dosbarth Cymraeg a'r dosbarth Meithrin. Diolchiadau lawer i'r athrawon a'r rhieni am eu brwdfrydedd.

SIOP BARA
Y PENTREF
Heol St Illtyd,
Pentre'r Eglwys
Bara a chacennau
wedi eu pobi yn y siop
mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
0443 202013
Trefnir Arlwyo

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL AELODAU'R URDD

Mae aelodau o'r Urdd wedi bod yn brysur o dan arweiniad yr athrawon ac ar y 10fed o Dachwedd buont yn chwarae gemau yr "oes a fu". Cafwyd hwyl fawr wrthi.

FFAIR NADOLIG

Ar ddydd Sadwrn 20fed o Dachwedd cynhaliwyd Ffair Nadolig yr ysgol Gymraeg. Gwnaeth y gwahanol stondinau yn dda iawn ac ar ddiwedd y dydd gwnaed dros £300 o elw ar gyfer yr ysgol. Daeth Siôn Corn yno hefyd ar ei deithiau. Dymuna Miss Betsi Griffiths, y brif-athrawes, ddiolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu gwaith ac i'r staff am roi o'u hamser i hwyluso'r cyfan.

RYGBI

Ar ddydd Gwener 12fed o Dachwedd curwyd tîm yr ysgol am y tro cyntaf gan dîm Ysgol Castellau. Sgoriwyd cais gan Gareth Walters i Donyrefail. Ar y dydd Mawrth canlynol chwaraewyd gêm yn erbyn Ysgol Ton Pentre a'u curo 45 - 0. Roedd safon y chwarae yn arbennig a derbyniodd y tîm ganmoliaeth uchel iawn gan hyfforddwyr timoedd eraill. Chwaraewyd ail gêm yn erbyn Ysgol Ferndale ac enillodd Ton 15 - 0.

Llongyfarchiadau i Gareth Walters, Leigh Thomas a Rhys Williams am gynrychioli ysgolion y Rhondda dan 11 oed yn eu gemau diweddaraf yn erbyn y Mynydd Mawr, Pontypwl a Cwmbrân.

CYMDEITHAS CERDDEDWYR

Mae yna fenter newydd wedi dechrau yn Nhaf Elái gan y Ramblers Association ac mae yna raglen o deithiau cerdded wedi ei baratoi ar gyfer y Gaeaf. Mae'r teithiau o 4 milltir i 7 milltir o hyd yn cychwyn o Ganolfan Hamdden Llantrisant bob bore Sul. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Mr Walter Jones ar Donyrefail 670212. Ef sydd wedi bod yn gyfrifol am ddechrau'r fenter a dymunir pob llwyddiant iddi.

CROESO ADREF

Mae'n hyfryd clywed fod Shirley, gwraig Walter Jones, adre o'r ysbytry ac yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn ysbyty Pentre'r Eglwys.

YSGOL GARTH OLWG

GALA NOFIO'R URDD

Bu dau ddeg o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y gala yn Ystrad Rhondda. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cymryd rhan yn enwedig i Adele Dowling, Dylan Hughes, Amy Breckon, tîm cyfnewid dan ddeuddeg y merched a lwyddodd i gyrraedd y ras derfynol.

DATHLU'R CYNHAEAF

Dathlwyd y cynhaeaf gyd dau wasanaeth. Y siaradwraig wadd oedd Mrs Moira Davies, Caerffili. Cyflawnwyd pump ymweliad cymdeithasol gan blant hŷn yr ysgol - i Ysgol Tŷ Coch, Ysbyty Tonteg, Cartref Penrhos, Cartref Henoedd Gartholwg a Chanolfan dyddiol Tŷ Illtyd.

YMWELD Â'R MELINAU GWYNT

Ar yr 20fed o Dachwedd cynhaliwyd diwrnod agored i fynd i fyny i weld y melinau gwynt. Roedd bws mini yn codi ymwelwyr ger Ysgol Hendreforgan. Roedd yn ddiwrnod arswydus o oer. Mae'n siwr ei fod yn oerach fyth i fyny ar ben y Maendy.

CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN

Ar ddydd Sadwrn, 13eg o Dachwedd cafwyd Ffair Nadolig a galwad gan Siôn Corn, er fod y tywydd yn ofnadwy gwerthfawrogwyd ymdrechion y rhieni a chodwyd £145. Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch am yr holl waith yn enwedig i Mrs Jan Richards sydd yn rhedeg y Meithrin yno.

TRAFOD TOMEN COEDLÁI

Ar nos Fawrth, 9fed o Dachwedd yng Nghlwb Coedlái cafwyd pwyllgor gyda'r cyngor ynghylch penderfyniad y Cyngor Sir i symud gwastraff gwenwynig o waith Golosg Coedlái yng ngwaelod y cwm i ben y mynydd a'i gladdu yno mewn plastig. Y cwestiwn gofynnir gan y trigolion yw os ei symud pam na allent ei ddwyn i ffwrdd a'i wneud yn ddiogel. Cafwyd pwyllgor arall ar Nos Fawrth, 16eg o Dachwedd i ddewis is-bwyllgor i edrych i mewn i beth a ellir ei wneud i droi'r penderfyniad fel ag y mae. Lleisiwyd barn y trigolion ar Radio Cymru ar fore Mercher canlynol gan Mr Ken Davies a minnau a Rhian Gough, cyn ddisgybl o Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac nawr yn Ysgol Llanhari ag yn byw nepell o'r fan. Hithau a'i chwaer yn arfer chwarae a beicio ar y safle cyn i'r perygl yma ddangos ei ben.

MUDIAD OLYMPAIDD PRYDEINIG

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 30, bu 9 o blant Blwyddyn 5 yng Nghaerdydd ar wahoddiad y Mudiad Olympaidd Prydeinig yn derbyn profiad mewn nifer o fabolgampau. Trefnwyd yr ymweliad gan Mrs Sylvia Davies. Mae'r mudiad Olympaidd wedi ymweld â phedair prif-ddinas ym Mhrydain - a dim ond pump ysgol o Gymru a wahoddwyd i Gaerdydd.

DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN

Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen gan gynnwys "Swper i'r Rhieni" gan blant Blwyddyn 5.

GWEITHGAREDDAU NADOLIG

Rhagfyr 7 - Sioe Nadolig - Mici Plwm a Rosfa
Rhagfyr 16 - Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Salem Tonteg.
Rhagfyr 17 - Cinio Nadolig yr ysgol
Rhagfyr 20 - Parti Nadolig Adran Babanod
Rhagfyr 21 - Disgo/parti Nadolig Adran Iau

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Tania Price, gynt yn athrawes yng Ngartholwg, a'i gwr Geraint ar enedigaeth mab bychan, Carwyn - brawd i Llyr Owain.

YSGOL GYFUN LLANHARI

CYNGERDD
FAURE REQUIEM

Dydd Mawrth, 14 Rhagfyr
Tabernacl, Efail Isaf

Dydd Iau, 16 Rhagfyr
Tabernacl, Penybont

am 7.30 p.m.
Tocynnau: £2.50
(£1.50 henoed a phlant)
0443 237824

8fed GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

BWRLWM YR ŴYL

Beirniadaeth Iola Greogory

Rydw i wedi cael fy rhyfeddu gan y bwrlwm a'r egni a'r talent a dawn yma, yn arbennig am fod gen i ddim syniad fod y ffasiwn weithgaredd yn Gymraeg mor fyw ac iach yn yr ardal. Mor braf oedd gweld cymaint o bobl ifanc efo acen Gymraeg mor dlws er yn ddiethr i mi, roedd yn hwb personol i mi. Dydw i ddim yn mynd i feirniadu ond i ganmol yr holl berfformiadau.

Adran y Creigiau

Dolores yr Actores

Roedden nhw yn grêt. Beth sydd yn wych oedd gweld y gwahaniaeth mewn oed a profiad a chrefft. Rhowch dwy neu dair blynedd a bydd y cwmni bach yma ar y brîg - Rhian Mair, Bethan Griffiths, Marged Haf, Rhian Arwel a Lucy Green - llongyfarchiadau mawr i chi. Y merched a Huw James oedd wedi sgwennu a chreu y sioe yma.

Cwmni A Y B

Cyfrinachau

Cwmni arall wedi rhoi y sgript gyda'i gilydd ac wedi gwneud campwaith. Hefyd yn gwmni ifanc, arbennig o dda. Ces i fy nghyfareddu gan y cyflwyniad bach yma. Doedd dim eisiau rhaglen i ddeall y cyflwyniad oedd yn ffinio rhwng ffantasi a'r gwir. Canmoliaeth arbennig i Anna1 - Luned Phillips, ac hefyd Anna2 - Esyllt Swain. Roedd y rhai oedd yn actio'r merched bach chwech oed yn arbennig o dda - Siân Edwards, Sadie-Jayne Manners ac Awen Penri, sketch bach fendigedig. Mae'n anodd iawn actio plant chwech oed heb fynd dros ben llestri. Roedd y cynhyrchiad yn glyfar yn creu ias ac yn effeithiol dros ben.

Prif Actor yr Ŵyl, Bethan Elis Owen gyda'r beirniad, Iola Gregory.

Ysgol Gyfun y Cymer

Senghennydd

Llwyfan yn llawn o blant ac eto roedd modd gweld bob un. Roeddynt yn symud i ffurfio grwpiau bach oedd yn weladwy ddiddorol. Cynhyrchiad da iawn a'r gerddoriaeth yn ysgubol. Ddim gymaint o berfformiadau unigol ond oedd bob un o'r actorion ar y llwyfan yn angerddol iawn. Yn benodol roedd y llefarwyr Rhydian Phillips a Rhys Davies yn dda iawn, hefyd y teulu - y tad, Aaron Fort, ei wraig, Angharad Rees a'r plant, Mathew Knight, Rhiannon Rowlands, Carys Parry a Daniel Davies. Lleisiau bendigedig yn arbennig gan Angharad Rees. Roedd y gymeradwyaeth ar y diwedd yn dangos fod pawb wedi mwynhau y perfformiad yna.

Ysgol Gyfun Llanhari

Pantomeim.

Argol roeddech chi'n dda - cymeriadu bendigedig a stori dda. Roedd na gymeriadau mawr pantomeimog arbennig o dda. Roedd hyd yn oed y diffyg yn y cof yn ddoniol gyda ryw *routine* bach i ddweud llinellau un wrth y llall. Actorion yn datblygu yn arbennig o dda a gwneud i'r gynulleidfa fod efo chi yn eich gwendidau. Yn arbennig Manon Phillips, Bethan Ellis Owen, Owain Phillips a Neil Evans oedd yn chwarae'r Dame a rhwng y ddau yna oedd y diffyg yn y llinellau a promptio'u gilydd ar y llwyfan. Mari Roberts a Llio Penri. Bob un â pherfformiadau cryf cryf.

Cwmni Drama Ysgol Gyfun Glantaf

Anterliwt a Billy Liar.

Efallai nad oedd cystal hwyl a'r rhai eraill. Roedd yna berfformwyr da iawn - Dion Davies a Heledd Bianchi yn yr Anterliwt. Ceri Hughes yn Billy Liar gyda pherfformiad llawn hyder a Sara Gwilym gyda chyffyrddiadau bach diddorol. Ond goedd y cyfan ddim wedi asio at ei gilydd, angen mwy o gyfarwyddo ar y cynhyrchiadau.

Senghennydd
Ysgol Gyfun y Cymer

8fed GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

Wi Moyn Danso
Ysgol Gyfun Llanhari

Ysgol Gyfun Llanhari
Wi Moyn Danso
Drama ddiddorol iawn wedi ei symud o'r Iwerddon i Orllewin Cymru a hynny wedi gweithio yn dda iawn. Roedd y dawnsio yn rhan o'r hwyl ond pam nad oedd y llais yn dod o'r llwyfan? Buasai wedi bod yn help i weld hwnnw. Perfformiadau arbennig o dda - Bethan Elis Owen yn hyderus iawn, Mari Roberts, Manon Phillips yn rhoi perfformiad credadwy tu hwnt mwy tawel a disgybledig ac efallai yn fwy anodd, Llio Penri - rhan anodd arall. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Clwb y Dwrlyn
Noson Lawen
Profiad ofnadwy oedd cael fy llusgo o ddiogelwch fy nghadair a'm desg i'r llwyfan i ddathlu ar ***Penblwydd Hapus*** a pawb yn fy sarhau i a'm cyd-actorion ar y rhaglen sebon deledu fwyaf llwyddiannus a phoblogaidd ar S4C. Oddiwrth ymateb pawb roedd hi'n andros o lwyddiant ac yn ddoniol iawn. Fe wna i feddwl os ydyn nhw'n haeddu'r wobr am hynna.

Anterliwt
Ysgol Gyfun Glantaf

Diolch i Ffilmiau Elidir, TAC, Cambrensis, Derwen, Cyngor Taf Elái. Cylch Meithrin Tonteg, Cylch Meithrin Llanilltud Faerdref, Bwrdd Golygyddol Tafod Elái, Neuadd Dowlais, Y Cwmniau i gyd ac yn arbennig i Colin Williams.

Clwb y Dwrlyn
Hi o Bawb
Bizarre - cymeriadu da iawn. Roedd na symudiadau da, un o'r actorion yn cymeryd cam ymlaen bob llinell oedd ganddi hi i ddweud - bydd rhaid i mi ddefnyddio'r dull yna. Rhaid i mi sôn am Ann Davies roedd hi'n reit feistrolgar a Sheila Dafis yn trio dal a chyflwyno'r blodau. Y lein fendigedig "Ydi'n het i'n syth", "Wel os nac ydi hi daliwch eich pen yn gam". Adloniant penigamp a phawb yn rholio chwerthin. Dydio ddim ots os ydi petha'n mynd yn wrong. Sbort a hwyl.

Llongyfachiadau mawr rwyf wedi mwynhau fy hun yn ofnadwy.

Y DYFARNIAD

ENILLYDD DRAMA YR OEDOLION:
Clwb y Dwrlyn.

ENILLYDD Y NOSON LAWEN:
Clwb y Dwrlyn.

Y PANTOMEIM:
Ysgol Gyfun Llanhari.
Dwi ddim wedi gweld pantomeim proffesiynol oedd wedi rhoi cymaint o bleser i mi.

DRAMA IEUENCTID:
Y gystadleuaeth fwyaf anodd i'w beirniadu. Y tri cynhyrchiad ar y brig - 'Wi Moyn Danso', 'Senghennydd' a 'Cyfrinachau' roedd rhywbeth arbennig iawn am y tri cynhyrchiad yma. Ond yr un fwyaf tyn a gorffenedig ac yn berfformiad afiaethus a disgybledig oedd:
Senghennydd gan Ysgol Gyfun y Cymer.

Y PERFFORIAD RODDODD FWYAF O BLESER:
Y Pantomeim,
Ysgol Gyfun Llanhari.

YR ACTOR:
Pedair yn haeddiannol llwyr o'r wobr yma: Bethan Elis Owen, Mari Roberts, Manon Phillips a Llio Penri. Oherwydd ei pherfformiad cryf y ddwy noson mae'r wobr yn mynd i Bethan Elis Owen.

LLUNIAU O'R ŴYL DDRAMA

Billy Liar
Ysgol Gyfun Glantaf

Dolores yr Actores
Adran y Creigiau

Cyfrinachau
Cwmni A.Y.B.

Pantomeim
Ysgol Gyfun Llanhari

Noson Lawen
Clwb y Dwrlyn

Y MESEIA
Côr Godre'r Garth
ac Unawdwyr

7.00 p.m. Nos Sadwrn,
11 Rhagfyr 1993
Capel Tabernacl
Penybont ar Ogwr.
Tocynnau: £4.
Ffôn: 0222 890770

Yn dilyn llwyddiant "i" yn Eisteddfod Llanelwedd 1993 mae Dalier Sylw yn dathlu pum mlynedd o gynhyrchu gyda *CALON CI* gan Gareth Miles, cynhyrchiad fydd yn Theatr Sherman, ar Gwener - Sadwrn, 28 - 29 Ionawr 1994. Ar daith gyda'r cynhyrchiad bydd gosodwaith/arddangosfa, ICONAU CYMRAEG - HEN A CHYFOES, gan Owen Stickler ac Aron Evans.

Mae *Calon Ci*, sy'n gyd-gynhyrchiad â Theatr Clwyd, yn ddychan amharchus o'r gymdeithas Gymreig gyfoes. Wedi ei lleoli yng Nghymru'r dyfodol agos, mae drama Gareth Miles yn cyflwyno byd materol lle nad oes dim yn sanctaidd.

'Hi o Bawb' - Clwb y Dwrlyn

Prysurdeb Stondin Lyfrau
Canolfan Gymraeg Merthyr
yn yr Wyl Ddrama

Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer *Calon Ci* o nofel a drama y dychanwr o Rwsia, Michail Bwlgacoff. Mae *Calon Ci* Bwlgacoff, a ysgrifennwyd yn 1925, yn ddychan ffyrnig ar effaith y Chwyldro Comiwnyddol yn Rwsia. Mae'r nofel yn trafod bywyd a gwaith gwyddonydd enwog. Trwy ddefnyddio'r dechneg o drawsblannu rhai organau hanfodol, mae'r Athro yn anelu at drawsffurfio ei gleifion. Uchafbwynt ei yrfa yw'r arbrawf i greu y "Dyn Newydd" trwy drawsblannu ymenydd a cheilliau dyn i gorff ci crwydr. Mae'r canlyniad yn un syfrdanol, yn ddigrif iawn, ond y tu ôl i'r digrifwch ceir beirniadaeth ar agwedd sylfaenol o gymdeithas.

Mae'r un peth yn wir am ddrama Gareth Miles, sy'n defnyddio amlinelliad y stori wreiddiol, ac yn ei addasu ar gyfer y Gymru gyfoes, a'r chwilio parhaus am Hunaniaeth Gymraeg. Amcan yr Athro Owain Lawgoch yw creu y Cymro perffaithh. mae'n arbrofi ar Saunders, cyn gi anwes cynhyrchydd teledu, sydd wedi cael ei ddylanwadu gan fywyd cyfforddus a diwylliannol ei gyn-feistr, a chelain Bleddyn Brothen, canwr roc Cymraeg a mân droseddwr a gafodd ei ladd yn ystod gloddest o ddiota adeg gêm rygbi ryngwladol. Mae'r canlyniad yn un ANHYGOEL!

Cyfarwyddydd Artistig Dalier Sylw, Bethan Jones, sy'n cyfarwyddo *Calon Ci*. O ddyfnder y bag papur, fe'i clywir yn adleisio: "Mae Calon Ci yn gipolwg crafog ar gymdeithas Gymreig. Does dim yn sanctaidd. Un arwydd o genedl hyderus yw y gallu i archwilio, a chwerthin yn iach ar ben ei hynodweddion. Gwaharddwyd nofel Bwlgakov. All Cymru wynebu drama Gareth Miles?

Bydd y gerddoriaeth yn *Calon Ci* yn cynnwys cân wedi recordio yn arbennig ar gyfer y cynhyrchiad gan Gorky's Zycotic Mynci. mae hefyd yn cynnwys cerddoriaeth gan Stuart Burrows; Anrhefn; J.S. Bach; Datblygu; Hogiau Llandegai; Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr; G. Bizet; Trebor Edwards; Maffia; Margaret Williams; Trwynau Coch; Steve Eaves a'i Driawd; Dafydd Iwan.

Cast *Calon Ci*: Gwyn Vaughan-Jones fel y Ci a Trefor Selway fel yr Athro; Eirlys Britton; Danny Grehan; Iestyn Jones; Lowri Mai ac Eiry Thomas.

I sicrhau eich tocynnau, archebwch nawr ar 0222 230451.

Bocs Sebon

Emlyn Davies sy'n camu ar y bocs sebon y mis hwn, gan achub cam Cymreictod Taf Elái.

DIFFEITHWCH DIWYLLIANNOL?

Wrth i Tafod Elái fynd i'w wely y mis hwn, fe ddaeth y newydd am elw sylweddol Eisteddfod yr Urdd, Bro Glyndwr, sy'n siwr o fod yn destun edmygedd i bawb a fu'n gysylltiedig a'n heisteddfod ninnau y flwyddyn cynt. Mae'r cyhoeddiad yn gosod pwysau aruthrol ar drefnwyr yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf, a gynhelir yn Nolgellau, yn enwedig felly gan fod trigolion Meirion yn ystyried nad oes neb yn well na nhw am drefnu gwyliau o'r fath. Ac fel mae'n digwydd, yr ymffrost hwnnw sydd wedi ysgogi hyn o eiriau y mis hwn.

Ond cyn i mi godi stêm o ddifrif ar y pwnc, gadewch i ni wneud un neu ddau o bethau yn gwbl glir. Yn y lle cyntaf, rydw i'n edmygydd mawr o'r modd y mae pobl Penllyn a rhannau eraill o Feirion yn gwarchod "y pethe". Yn ail, rydw i'n derbyn y ffaith eu bod nhw'n gallu trefnu gweithgareddau o'r fath yn neilltuol o dda. Yn drydydd, mae gen i lawer iawn o ffrindiau sy'n hannu o Feirion, a rhai ohonyn nhw yn byw yno o hyd.

Wedi i mi gael hynna oddi ar fy mrest, wnaiff neb fy nghamddeall i gobeithio. A dyma fy nghŵyn. Rydw i eisoes wedi cael llond bol ar rai o bobl yr ardal yn son am yr Eisteddfod "yn dod adref i Feirion", neu am "y cawg yn mynd yn ol i'r ffynnon," a hyd yn oed am fynd â'r Brifwyl "i'r Gymru go iawn." Ac nid ffrwyth fy nychymyg i yw ystrydebau gwallgof o'r math yna. Fe gawson nhw'u hynganu yn gyhoeddus, hyd yn oed oddi ar lwyfan Eisteddfod Gorseinon.

Lle felly mae hyn i gyd yn eich gosod chi a fi, a'n plant? Thenciw mawr, bobl Penllyn, am gael benthyg eich Prifwyl chi am gyfnod byr ym 1991, ac am gael blasu ychydig o'ch diwylliant chi, a gobeithio na ddaru plant Morgannwg ddim gwneud unrhyw niwed parhaol i'ch Eisteddfod chi gan ein bod ni'n byw yn y fath ddiffeithwch diwylliannol a ieithyddol.

Diolch i'r drefn mae'r rhelyw o bobl Meirion yn gallach na hynny, ac yn fodlon cydnabod fod Taf Elái hefyd yn rhan o Gymru, ac yn sicr fyddai'r math o nonsens rydym ni wedi'i glywed gan ambell un ddim yn gymeradwy gan swyddogion yr Urdd eu hunain. Ond mi fentraf fy mhen i dorri y byddwn ni wedi clywed ymadroddion fel hyn drosodd a throsodd hyd syrffed rhwng nawr a'r Eisteddfod ei hun.

A phan glywn ni ddywediadau o'r fath yn ystod y misoedd nesaf, fe ddylem ni fod yn ateb yn ôl. Mae angen atgoffa pobl fel hyn o'r gweithgarwch sydd yn Nhaf Elái; mae angen chwifio baner Menter Taf Elái dros Gymru gyfan, a'u hatgoffa fod y tŵf sy'n digwydd yma yn allweddol i barhâd yr iaith.

Mae'r awgrym fod diwylliant unrhyw ran o Gymru yn fwy pur na rhannau eraill yn swnio'n afiach iawn i mi. Mae diwylliant pob ardal yn ddilys yn ei rinwedd ei hun, ac yn rhan hanfodol o frodwaith cyfoethog y Gymru gyfoes.

Rwy'n cofio siarad gyda chriw o bobl ifanc o Ysgol Llanhari unwaith, ar ôl iddyn nhw fod yn cystadlu mewn cwis oedd yn ornest genedlaethol. Ar ddiwedd y gystadleuaeth, fe ddaeth gwraig o'r Gogledd (a ddylai wybod yn well), atynt i'w llongyfarch, gan fynegi rhyfeddod eu bod mor wybodus am Gymru a'i llenyddiaeth o ystyried eu bod yn byw yn y fath le â Thaf Elái!

Roedd y bobl ifanc wedi'u brifo, ac yn amlwg roedden nhw'n teimlo dros eu hardal a'u hysgol.

Does dim dwywaith nad oedd cynnal yr Eisteddfod yn Nhonyrefail yn fodd i addysgu sawl un am yr ardal hon, ond fe ymddengys fod yna lawer o waith cenhadu i'w wneud eto.

Yn y cyfamser, os clywch chi unrhyw un yn awgrymu mai dinasyddion eilradd dy pobl Taf Elái yn ddiwylliannol, rhowch lond bol yn ôl iddyn nhw.

Ar y llaw arall, os ydw i'n or-sensitif, sgwennwch at Olygydd Tafod Elái i roi ymateb. Mi fuasai wrth ei fodd yn rhoi llwyfan i ddadl ar y pwnc.

YSGOL Y DOLAU

GWASANAETH CYNHAEAF

Cynhaliwyd dau wasanaeth cynhaeaf eleni. Bu'r plant iau yng nghapel Carmel, a chafwyd anerchiad diddorol dros ben gan y Parchedig Robin Samuel. Casglwyd swm sylweddol o arian ac fe ddaeth Mr Dominic Jenkins o Dŷ Hafan i dderbyn y siec.

Cafwyd gwasanaeth y babanod yn neuadd yr ysgol a chasglwyd ffrwythau ar gyfer yr henoed.

TRAWSGWLAD

Bu tîm o ferched blwyddyn 6 yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar yng nghystadlaethau trawsgwlad yr Urdd. Bydd Rhiannon Selby, Natalie Butler, Louise Jones, Tammy Jones, Michella Thomas a Rachel Holmes yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol nawr i gynrychioli Morgannwg Ganol. Gwnaeth Rhiannon Selby yn arbennig o dda, drwy ennill ras yr unigolyn allan o saithdeg o gystadleuwyr. Pob hwyl i chi ferched yn y rownd derfynol.

CYDYMDEMLAD

Cydymdeimlwn â Margaret ac Ifan Roberts, Ty Cnau, Cefn Bychan Pentyrch a'r teulu ar golli mam Margaret ar ddiwedd mis Tachwedd.

YMWELIADAU

Bu amryw o'r plant ar ymweliadau diddorol yn ddiweddar. Aeth dosbarthiadau Mrs Roberts a Miss Davies i Sain Ffagan i astudio'r pentref Celtaidd. Bu dosbarth Mr Evans yn ymweld â'r gwaith glo brig cyfagos ac aeth plant Mrs Nicol i weld olion Rhufeinig yng Nghaerleon. Aeth dosbarth Mrs Williams a Miss Arnold i ysgol Gyfun Llanhari i wrando ar Nia, y gantores grefyddol.

JAMBORI YR URDD

Aeth plant blwyddyn 5 a 6 i ganolfan hamdden Llantrisant i gymryd rhan yn Jambori'r Urdd. Cafwyd amser bendigedig a'r plant wrth eu bodd yn canu, chwerthin a gweiddi.

Y MAES RYGBI

Llongyfarchiadau i'r bechgyn sydd wedi eu dewis i chwarae i dim ysgolion Pontypridd - Geraint Thomas, Mathew Slade, Alyn Lake, Lloyd Thomas, Steven Riley a Nicholas Lane.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm yr ysgol am ennill gemau yn erbyn Cilfynydd (24 - 0), Gwauncelyn (28 - 5), St Michels (10 -5), Ffynnon Taf (17 - 7), Parc Lewis (20 - 0). Daliwch ati fechgyn.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

CYDYMDEIMLO
Bu farw Mrs Annie Powell, aelod hynaf Y Tabernacl ar Hydref 19ed yn 96 blwydd oed. Treuliodd flynyddoedd olaf ei bywyd yng Nghartref Nyrsio Carlton Heights, Maesycwmmer lle y derbyniodd bob gofal a chysur. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w nai a'r teulu.

BEDYDD
Bedyddiwyd Gwenno Caroline, merch fach Geraint a Caroline Rees yn y Gwasanaeth Cymun ddechrau Tachwedd. Gweinyddwyd y bedydd gan tad Caroline, Y Dr. Colin Sowter a chafodd ei gynorthwyo gan y Parchedig Eirian Rees, tad Geraint.

FFAIR GREFFTAU TRAID CRAFT
Cynhaliwyd ffair grefftau lwyddiannus iawn yn Neuadd y Pentref ar Fore Sadwrn, Tachwedd 13ed.

Y NADOLIG YN Y TABERNACL
YR YSGOL SUL
Cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul ar fore Sul, Rhagfyr 12ed am 10.45 a.m. a bydd parti'r Ysgol Sul ar brynhawn Gwener, Rhagfyr 10fed yn Neuadd y Pentref am 4.30 p.m.

TEULU TWM
Aelodau Teulu Twm fydd yn cynnal y Gwasanaeth ar fore Sul, Rhagfyr 19ed am 10.45 a.m. ac mae'n siwr y bydd parti'n cael ei drefnu yn wobr am holl waith a phrysurdeb y tymor. Mae arweinyddion Teulu Twm yn trefnu Taith Ddirgel i'r aelodau ar Ddydd Sadwrn 18fed o Ragfyr.

TEIDIAU TWM
Yn dilyn llwyddiant ysgubol Pasiant y Nadolig i lawr ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn Llancarfan llynedd mae aelodau Teidiau Twm yn cynnal tri pherfformiad yno eleni.
Sadwrn, Rhagfyr 18ed (perfformiad Saesneg) am 5 o'r gloch.
Sul, Rhagfyr 19ed (perfformiad Cymraeg) am 5 o'r gloch.
Llun, Rhagfyr 20ed (perfformiad Saesneg) am 7 o'r gloch.
Bydd gwaith cerdded o amgylch y caeau a chlos y fferm ar gyfer y gwahanol olygfeydd felly cofiwch wisgo dillad cynnes a phar o wellingtons.
Bydd Taith Ddirgel Teidiau Twm ar Sadwrn yr unfed ar ddeg o Ragfyr.

Y TWMIAID AR WASGAR
Bydd yn braf cael croesawu cyn aelodau Teidiau Twm adre o'r colegau dros Ŵyl Nadolig. Maent am fynd ati ar unwaith i drefnu noson o adloniant a swper ar Nos Sadwrn, Ionawr 1af yn Neuadd y Pentref yn Efail Isaf.

REQUIEM
Ar Ragfyr 14eg fe fydd plant, athrawon a rhieni Ysgol Gyfun Llanhari yn perfformio Requiem gan Faure yng Nghapel y Tabernacl. Dylai hon fod yn noson ardderchog.

GWASANAETH NADOLIG
Bydd y Brownies a'r Geidiau yn cynnal eu Gwasanaeth Nadolig yn y capel ar yr 8fed o Ragfyr a bydd Gwasanaeth y Sgowtiaid ar y 15ed o Ragfyr.

GWASANAETH NOSWYL Y NADOLIG
Cynhelir y Gwasanaeth dwyieithog arferol ar Noswyl y Nadolig yn y capel am 11.00 pm. Dyma gyfle i aelodau'r eglwys i wahodd cymdogion, teulu a ffrindiau i groesawu'r wyl gyda'n gilydd. Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno yng ngweithgareddau'r Nadolig gyda aelodau'r Tabernacl.

TEYRNGED OLAF
Daeth tyrfa fawr ynghyd i gapel y Tabernacl ar Dachwedd 18fed i dalu eu teyrnged ola' i Mrs Cynthia Phillips, 17 Penywaun a fu farw a hithau ond yn hanner cant a chwech oed. Roedd Cynthia bob amser mor siriol er iddi ddioddef cystudd hir ar ôl llawdriniaethau egr. Athrawes yn y Rhondda oedd Cynthia tan iddi orfod ymddeol yn gynnar rhyw flwyddyn neu ddwy yn ol oherwydd afiechyd. Roedd yn drysoryddes ac organyddes yn adran Saesneg yr eglwys ac yn gefnogol i bob gweithgaredd yn y capel. Fe fydd yn gadael bwlch mawr ar ei hôl. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Brian ac i'w fab Howard a'i ddyweddi Claire. Bydd hiraeth mawr ar ei hôl.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

CRAMAC
Bu'r twmpath a gynhalwyd yn neuadd yr Eglwys i godi arian at y maes antur newydd yn llwyddiant mawr. Dennodd band gwerin poblogaidd Y Taplaswyr nifer dda o ddawnswyr, a chodwyd £200 at y gronfa.

CYFEILLION YR YSGOL
Gwych! oedd barn pawb, yn blant ac oedolion, am yr arddangosfa tân gwyllt ar gae'r ysgol noson Guto Ffowc. Roedd yr awyr wedi goleuo fel wynebau'r plant wrth i rocedi a phelenni tân o bob lliw wibio tua'r ser. LLwyddiant mawr hefyd oedd y FFair Nadolig pan alwodd Sion Corn i gymryd archebion y plant! Diolch i'r Cyfeillion gweithgar am eu llafur a'u cefnogaeth i'r ysgol.

LLYFFANTOD GLÂN!
Bydd gan y llyffantod ddŵr glân i ymdrochi ynddo pan ddon' nhw i'r pwll ar waelod y stâd newydd i ddodwy grifft y gwanwyn nesa. Cliriwyd y mwd a'r sbwriel fu'n ei dagu, a dadansoddwyd bywyd gwyllt y pwll gan Mark Wilkinson o Gwasanaeth Gwledig Caerffili. Cafodd plant yr ysgol sgwrs ddifyr ganddo a gweld rhai o hoff fwydydd Wil Cwac Cwac yn y dosbarth.

YSGOL Y CREIGIAU
Torrodd lladron i mewn i'r ysgol ddwywaith yn ddiweddar gan wneud cryn ddifrod wrth chwilio am offer. Serch hynny, bwydydd i wneud cinio'r plant y diwrnod canlynol aeth â'u bryd - rhyfedd o fyd!
Pob lwc i'r plant gyda'u cyngerdd Nadolig, a diolch unwaith eto i'r athrawon am eu paratoi mor drylwyr.

PRIF-ACTORES YR ŴYL
LLongyfarchiadau i Bethan Ellis Owen am gael ei dewis yn berfformiwr unigol gorau Gŵyl Ddrama Tafod Elái 1993.



Dathlwch y Nadolig yng Nghlwb y Bont

Parti Noson Olaf y Tymor Nos Fercher, 22 Rhagfyr gyda Meic Stevens

Cystadleuaeth Iolo Morganwg 1993

Beirniadaeth Ynyr Williams ar ddau destun olaf y gystadleuaeth

CYSTADLEUAETH 'CLO'

BLWYDDYN 10 A 11

Daeth ugain cerdd i law gan ddisgyblion Ysgol y Cymer a Rhydfelen. Mi yrrodd y testun 'Clo' y beirdd i bob math o gyfeiriadau o gloeon henaint i gloeon afiechyd ac anabledd, a chyn trafod y cerddi fe ddylem aros rywfaint ar y testun. Mae yna ddau ddefnydd i glo - mi allwch agor neu gloi clo ac mi oedd yn syndod i mi fod pob un o'r cystadleuwyr wedi defnyddio clo fel rhywbeth negyddol, anobeithiol yn hytrach na sôn am y gobaith sydd yna wrth agor clo, wrth brofi'r newydd, wrth gerdded o dywyllwch i oleuni. Dyna i chi Michelle Coburn o'r Cymer:

> Byw mewn awyrgylch drom, ddistaw, oer
> Ac yn ymwybodol bod .....
> Crafangau cancr yn cloi amdano.

a Becky Thomas wedyn:

> Mae'n byw mewn carchar
> heb allwedd
> i agor y clo.

Mae Rhian Humphries o Rydfelen hefyd yn nhir anobaith:

> Dwr yn hallt yn cwympo
> Y dagrau'n llifo
> Yn creu llyn
> o anhapusrwydd.

I Angharad Philpott o'r Cymer mae colli diniweidrwydd plentyn yn dristwch mawr:

> Wrth newid o fod yn blentyn i berson
> darganfyddais gloeon newydd,
> clo anghydfiawnder.
> Ac o fewn y clo hwnnw, trigai cloeon
> f'acen a'm gwreiddiau.

Ond at y buddugwyr. Yn drydydd mae Cerian Arianrhod o Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cerdd mewn mydr ac odl sy'n sôn am ein cenedl a'n hiaith.

> Mae clo ar dafodau ein gwlad,
> Mae'r Gymraeg yn gaeth.
> A'r Cymry heb ddeffro eto
> I brofi heulwen eu hiaith.

ac yna:

> Rhaid i ni dorri'r hualau
> Rhaid herio pob Sais
> Sy'n gwrthwynebu'r gerddoriaeth
> Sy' 'nghlwm yn sillafu'r iaith.

Mae'n braf gweld beirdd yn mentro ar fydr ac odl oherwydd rhaid meistroli'r grefft yma cyn symud ymlaen at y canu rhydd. Yn ail mae Angharad Baber o'r Cymer am 'gerdd ffres a chlyfar iawn. Yr hyn sydd ganddi yw person dall wedi ei chloi mewn tywyllwch:

> Gweld bywyd trwy'm clustiau
> Gweld pob golygfa trwy swn symudiadau;
> Gweld pob gwrthrych trwy deimlad.
> Gweld trueni yn llygaid person arall
> trwy eu lleisiau.

Cerdd afaelgar iawn. Y buddugol yw Kathryn Williams, eto o'r Cymer. Mae'r gerdd wedi ei dweud yn dda ac mae'r cyferbyniad rhwng ieuenctid a henaint yn glir iawn. Mae wedi crisialu yr hyn yr oedd y beirdd eraill yn geisio'i ddweud ac wedi gwneud hynny'n ddyheuig iawn:

CLO

Yr allwedd ysgeler wedi ei throi unwaith ac am byth
yn y clo.
Minnau yma, yn eistedd â chell anweledig
yn fy ngharcharu.
Nid troseddwr mohonof, na gwystl ychwaith
Sy'n eistedd â bariau du rhwystredig
yn garchar amdana
Henaint yw maich
Y llanw'n drai ar draeth bywyd.
Meddwl ac enaid ifanc
ynghlo,
mewn corff bach eiddil, diddefnydd ... hen....hen.
O dan raean y traeth
mae personoliaeth a hiwmor yn byrlymu'n don,
yn mynnu dianc ac agor y clo.
Dim cywilydd. Dim sentiment am yr hyn a fu.
Cofio am y person arferwn fod,
gwraig eiddgar, ormesol fy egni,
a'm tafod fel cyllell finiog ar adegau.
Cwmni sydd ei angen arnaf,
Stwffiwch eich cydymdeimlad a'ch tosturi.
Nawr, yn hwyrddydd fy mywyd
a myrdd atgofion a phrofiadau yn cronni o'm hamgylch,
eisteddaf yn oddefgar i gael fy ngormesu, nes i angau gydio'm llaw,
a'm harwain at fan lle nad oes cloeon yn rhwystro,
lle nad yw pobl yn cael eu dallu gan anwybodaeth.
Tan hynny
Arhosaf, gan obeithio darganfod yr allwedd,
a thaflu ymaith
y clo.

Kathryn Williams.

Kathryn Williams
Ysgol Gyfun y Cymer

Cystadleuaeth Iolo Morganwg 1993

CYSTADLEUAETH: 'LLAIS'

BLWYDDYN 12 a 13

Dim ond chwech gystadlodd ar y testun yma a rheiny i gyd yn ferched ac i gyd o Ysgol Gyfun Llanhari. Cylch bywyd sydd gan Llio Penri a'r gwahanol ddefnydd o lais mewn gwahanol amgylchiadau e.e. sgrech y newydd-anedig, "Gee ceffyl bach" yr hwiangerddi trwodd hyd nes bod y baban yna'n awr yn oedolyn ac yn riant ei hun:

> Disgwyl wrth yr allor
> Gwnaf
> Un gair
> Yn clymu gwr a gwraig.
>
> Gwaedd
> yn treisi'r tawelwch;
> Rhyddhad y geni.
>
> Ysgrech groch y bychan,
> Geiriau cysurlon ei fam gariadus.
> Y llefain
> yn tewi.....

Syniad da iawn ond efallai y dylid hepgor rhai o'r cyfnodau ym mywyd person er mwyn rhoi mwy o gig ar y lleill. Mi gawsom ni linellau cynganeddol yng ngherdd Mari Roberts a braf iawn oedd gweld hynny: "Clochdar aflafar yr ifanc / Rhoi taw a llaw ar y llais / Lleisio barn er lles y byd." Bydd yn rhaid i Rhys Dafis fod yn ofalus! Mi geisiodd Mari gwmpasu llawer o brofiadau neu sefyllfaoedd yn ei cherdd ond byddai'r gerdd yn gryfach petasai wedi canolbwyntio ar un profiad a chreu cerdd o gwmpas hynny. Helen Ball sy'n drydydd am gerdd fwyaf ysgytwol a chignoeth yr holl gystadleuthau. Son y mae hi am losgach ac ofn y ferch i adrodd ei phrofiadau:

> Fe roddai unrhyw beth
> i gael gwared y ffrwyn eiriol
> a'i hataliai hi rhag
> galw yn croch am gymorth.

a dyma i chi linnell:

> Y meddw eisiau mwytho meddalfannau
> ei ferch.

Bron nad yw'r gerdd yn rhy gryf i'w darllen. Er ei bod yn gerdd onest iawn mae'n rhaid gwylio rhag llithro i ryddiaith. Petase Helen wedi bod ychydig yn fwy cynnil mi fyddai'n gerdd llawer cryfach. Cofiwch mai pwrpas cerdd yw i ysgogi'r meddwl a'r dychymyg a gall rhestru ffeithiau moel, er mor deilwng neu ofnadwy y rheiny, lyffytheirio'r mynegiant a'r mwynhad. Yn ail mae Rachel Edwards am gerdd gyhyrog, goeth. Mae wedi llwyddo i ddal sylw'r darllenydd tan y diwedd ac wedi dadansoddi a chrisialu ei theimladau.

Llais

Murmur parhaus yng nghefn fy meddwl
Sy'n fy llusgo'n llafurus tuag ato
Mae'n fy nal fel pryfyn yn ei wê,
Carcharor tragwyddol ydwyf iddo e'

Magnet holl bwerus ydyw,
Magnet diethr, anweladwy
Atyniad angheuol sy' rhyngom
Bondiau anorchfygol.

Cynrhonyn di-drugaredd
Sy'n tyllu'n ddyfnach i'm cnawd,
Cyhuddiadau sy'n dal i gnoi
Llais euog fy nghydwybod.

Rachel Edwards.

Yn fuddugol y mae Bethan Elis Owen eto o Lanhari. Dyma'r gerdd orau a afaelodd ynof o'r dechrau. Mae yma gymaint o gryfderau ac ychydig iawn, iawn o wendidau. Mae'n rhoi rhwydd hynt i'r darllenydd defnyddio'i ddychymyg ei hun ac er fod yma dristwch amlwg mae cryfder aruthrol hefyd yn y llinell olaf. Cryfder arall y gerdd yw nad ydi'n enwi'r 'afiechyd' ac mi fyddai hynny wedi bod mor hawdd ond dyw hi'n "dweud dim". Ei 'llais' hi yw'r llais di-lais, mewnol hwnnw sef llais argyhoeddiad a llais ffydd. Dyma binacl clodwiw iawn i gystadleuaeth Iolo Morgannwg am eleni a diolch i bob un o'r beirdd am ei gwaith caled. Daliwch ati!

LLAIS

Dwi'n dweud dim,
Anadlu'n ddwfn, gwthio emosiwn o'r meddwl,
Ei wthio'n bell, bell i ffwrdd.
Dwi ddim am ei wynebu. Ddim eisiau sylwi.

Dwi'n dweud dim.
Mae'n anodd ar adegau rheoli'r dagrau
A phopeth wedi chwalu
A'r afiechyd yn rheoli'r un dwi'n garu.

Dwi'n dweud dim
Wrth weld yr effaith ac anwybyddu'r adwaith.
Casineb yn byrlymu
A 'nghalon i'n gwaedu ac wedi'i pharlysu.

Dwi'n dweud dim
Y Ferch yn ei garu ond eto'n ei gasau
Mae'r aflwydd ynddo mor gryf
Fe'n styrbiodd ni gan chwalu ein cartref mor hy.

Dwi'n dweud dim
Wedi iddo sylweddoli, gallaf helpu
Ond am nawr brathu tafod
Magu ffydd a disgwyl y wawr i'w gael yn rhydd.

Bethan Elis Owen

LLYGAD Y GEINIOG

PRISIAU'N GOSTWNG

Erbyn i hyn o druth ymddangos byddwn yn gwybod y gwaethaf am gyllideb Kenneth Clarke. Roedd disgwyl mawr y byddai'r Canghellor yn cyhoeddi y byddai cyfraddau llog yn gostwng eto yn sgîl y cwymp a welwyd mewn chwyddiant yn ystod mis Hydref. Roedd hynny yn rhyfeddod ynddo'i hun gan mai codi y bydd prisiau yr adeg hon o'r flwyddyn fel arfer wrth i'r siopwyr fanteisio ar ein haelioni ni fel prynwyr yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig. Dyma'r tro cyntaf ers deng mlynedd ar hugain i brisiau ostwng yn nhymor yr hydref. Ond diolch i gwmni Sainsbury, fe welsom ni'r ergydion cyntaf yn cael eu tanio mewn rhyfel prisiau rhwng yr arch-farchnadoedd, a hynny a arweiniodd i'r cwymp.

Ond cyn i chi ddechrau dathlu, gwell nodi faint o arbediad yn union mae'r gostyngiad yma'n ei olygu ym mhris eich basged siopa. Am bob canpunt y byddwch yn ei wario ar fwyd, fe ddylech arbed 70 ceiniog. Dyw hynny ddim yn ffortiwn, ond mae'n debyg ei fod yn well na dim.

PETROL

Y newydd da arall yw fod pris petrol yn gostwng, wrth gwrs. I gwmni B.P. y dylem ddiolch am hynny, gan iddyn nhw weld yn dda i'w ostwng 9 ceiniog y galwyn ym mis Tachwedd, gan orfodi pob gwerthwr arall i ystyried y farchnad. Y disgwyl yw y bydd yr arbediad hwnnw yn cael ei lyncu gan godiad yn y ddisg dreth ar geir yn y Gyllideb. Os na ddigwyddodd hynny erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn, yna mae gwyrthiau yn dal yn bosib.

Cyfartaledd dros wledydd Prydain yw'r arbedion uchod mewn petrol a bwyd, wrth gwrs, ac mae amrywiaethau yn gallu digwydd o ardal i ardal. Unwaith y bydd y prisiau wedi setlo i lawr, fe gawn gynnal arolwg arall yn Tafod Elái fel a wnaed rai misoedd yn ôl, yn cymharu prisiau gwahanol fodurdai a gwahanol siopau cadwyn.

PRISIAU TAI

A thra bo costau nwyddau wedi gostwng yn groes i'r arfer, fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd gyda phrisiau tai hefyd. Bob Hydref yn ddieithriad bron, fe fydd prisiau tai yn codi cryn dipyn mewn mis prysur. Ddigwyddodd hynny ddim eleni, am ddau reswm. Yn y lle cyntaf roedd yna brinder o dai newydd ar y farchnad, ac yn ail roedd prynwyr yn gyndyn iawn o ruthro i brynu cyn gweld beth fyddai yn y Gyllideb. Y newydd gorau posib i'r farchnad dai fyddai gostyngiad arall mewn llogau, a hyd yn oed os na ddigwydd hynny mae disgwyl i'r cymdeithasau adeiladu eu hunain ostwng pris morgais er mwyn cael y farchnad i symud. Felly gallwn wneud un broffwydoliaeth eithaf diogel yn y golofn hon y mis hwn - beth bynnag ddigwydd i gyfraddau llog yn y Gyllideb, byddwch yn talu llai o forgais erbyn y Nadolig. Nid fod hynny, ysywaeth, fawr o gysur i'r 75,000 o deuluoedd a gollodd eu cartrefi ym 1992 oherwydd na allen nhw fforddio'r ad-daliadau ar eu morgais.

RHYBUDD

Ac un gair o rybudd i gloi. Fe welwch chi hysbysebion ymhobman y dyddiau hyn yn cynnig i chi symud eich morgais i gwmni neu gymdeithas arall ar logau is. Yn y bôn, mae hwn yn ddewis gwerth ei ystyried, ond fe all sefyllfa fel a ganlyn godi. Dywedwch eich bod wedi gwneud gwelliannau i'r tŷ oedd yn golygu ychwanegu at eich morgais. Yn aml iawn, fe fyddai'r gymdeithas adeiladu yn agor ail gyfrif morgais yn eich enw ar gyfer y benthyciad newydd, yn enwedig pe byddai'r benthyciad gwreiddiol yn cyrraedd £30,000. Wrth drosglwyddo'r morgais i gwmni neu fanc arall, fe fyddai'r cwmni newydd yn ystyried y cyfan fel un morgais mawr, ac os oes rhan o'r benthyciad ddim yn gymwys i haeddu manteision trethiannol dan y cynllun MIRAS, fe allech golli'r fantais honno ar y cyfan. Byddai hynny yn gam gwag iawn.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Silyn a Meryl Roberts, Ty Draw, Pentre'r Eglwys ar enedigaeth merch fach, Saran.

ADRAN YR URDD

Mae cyfarfodydd yr adran yn llewyrchus iawn gyda tua deg ar hugain o bobl ifanc yn cwrdd bob nos Fawrth. Cafwyd noson hwyliog iawn ddechrau Tachwedd pan aeth llond bws i fowlio deg yn Nhonyrefail.

CYLCH TI A FI

Cafwyd ymweliad gan Ann Andrews, Swyddog Datblygu'r Mudiad Meithrin pan gafodd pawb gyfle i weld y llyfrau sydd ar gael erbyn y Nadolig. Roedd nwyddau'r Mudiad hefyd ar werth yna. Cynhelir parti Nadolig pan fydd y plant yn mwynhau ymweliad gan Sion Corn.

YSGOL FEITHRIN TONTEG

Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yn neuadd Gartholwg gyda amrywiaeth o stondinau. Y digwyddiad pwysig nesaf fydd cyngerdd y plant ar yr 17eg Rhagfyr yn y bore (croeso i bawb). Hefyd fe fydd parti Nadolig i'r plant ar y 21ain Rhagfyr.

SWYDDFA'R POST TONTEG

Perchnogion: Bill a Thelma Cook



Dewis Helaeth o Gardiau Cymraeg at bob achlysur

(Penblwydd, Priodas, Gwellhad, a.y.b.)

GALWCH HEIBIO I'N GWELD

TUDALEN Y PLANT

CROESAIR NADOLIG

AR DRAWS

1. Nadolig ___.
2. Mair _ Joseff.
3. Rwy'n hoffi cael ____ yn fy hosan.
9. _ Sindy.
10. _ i feic os gwelwch yn dda?
12. Mae'r anrhegion yn yr ___.
13. Mae'r doethion a'r bugeiliaid _ y preseb.

I LAWR

2. Rwy'n sefyll yn uchel ar y goeden.
4. Rydyn ni'n canu ____ amser Nadolig.
6. Mae Siôn Corn _ ar y tô.
7. Mam Iesu.
8. Mae Siôn Corn yn dod _ Wlad yr Iâ.
11. Mae Siôn Corn yn gwisgo _ goch.





LLIWIWCH YR HOSAN

tri - gwyn
pedwar - coch
chwech - gwyrdd
wyth - melyn
deg - oren
un deg tri - coch
un deg naw - oren
dau ddeg un - gwyn
dau ddeg pump - glas
dau ddeg saith - gwyrdd

dau ddeg dau - porffor
dau ddeg tri - brown
dau ddeg pedwar - melyn
dau ddeg pump - oren
dau ddeg saith - gwyrdd
dau ddeg wyth - pinc
dau ddeg naw - glas
tri deg - coch



Dyma glawr llyfr a gyhoeddwyd eleni gan Gymdeithas Cerdd Dant Cymru. Casgliad yw o eiriau a gosodiadau a fydd yn addas ar gyfer amrywiol achlysuron - nosweithiau llawen, eisteddfodau, cymanfaoedd, neu i'w canu mewn ysgolion ar ac yr aelwyd gartref.

Gwahoddwyd yr Ŵyl Gerdd Dant i Ogwr ym mis Tachwedd 1995. Dymuwn pob llwyddiant i'n cymdogion wrth drefnu'r ŵyl lewyrchus hon.

BYDD Y CI DEFAID CYMREIG BYTH YR UN FATH ETO!

DALIER SYLW YN CYFLWYNO

COMEDI DDYCHAN GAN GARETH MILES

CYD-GYNHYRCHIAD A THEATR CLWYD

AR DAITH

12-29 IONAWR 1994

ARCHEBWCH NAWR!

THEATR SHERMAN CAERDYDD
Gwnener - Sadwrn, 28 - 29 Ionawr
am 7.30 yh.
Swyddfa Docynnau: 0222 230451
Pris Tocynnau: £6.90; £5.90; £4.90
(gostyngiadau ar gael)

SNICHOD Y TAFOD

"SNICHOD Y TAFOD" - ar gyfer ein darllenwyr mwy deallus. Pôs geiriol ym mhob rhifyn.

Atebion i: **Yr Hafod**
1 Llys Gwynno
Creigiau

EFFEITHIAU

g
l
a
w

ha ha
corun

E I N W D

E SCIROCCO

Atebion mis Tachwedd:
1. Talu'n hallt
2. Un Nos Olau Leuad
3. Canol Oed
4. Llond ei Groen
5. Tri chynnig i Gymro

WYDDOR CHI

Nifer fwyaf o eiriau tair llythyren a throsodd gan gynnwys o leiaf un gair naw llythyren.
* *Rhaid defnyddio'r lythyren ganol ymhob gair.*
* *Dim geiriau Saesneg.*
* *Dim geiriau wedi eu treiglo.*

Geiriau i: *Yr Hafod*
1 Llys Gwynno
Creigiau

L	E	Y
A	M	Dd
W	S	Y

Gair naw llythyren mis Tachwedd - PENCADLYS